# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2013** |
| Amser: | **09:30 – 13:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_05_12_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Rhun ap Iorwerth**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**William Powell** |
| Tystion: | **Mark Barry, Cynghorwr i Fwrdd Partneriaeth Busnes Caerdydd ar Drafnidiaeth a'r Economi**<br>**James Brown, Powell Dobson Urbanists**<br>**Alan Davies, Capita**<br>**Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)** |

Olga Lewis (Dirprwy Glerc)
Martin Jennings
Andrew Minnis (Ymchwilydd)
Anne Thomas (Ymchwilydd)
Ben Stokes (Ymchwilydd)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC, Eluned Parrott AC, David Rees AC. Dirprwyodd Mike Hedges AC ar gyfer Joyce Watson AC a dirprwyodd William Powell ar gyfer Eluned Parrott AC.

## 2 Metro ar gyfer Dinas-ranbarth Prifddinas Cymru (09.50-10.50)

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan James Brown, a oedd yn cynrychioli Powell Dobson Urbanists, ac Alan Davies, a oedd yn cynrychioli Capita.

## 3 Metro ar gyfer Dinas-ranbarth Prifddinas Cymru (11.00-12.00)

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Cefnogwyd y Gweinidog gan Mark Barry, Cynghorwr Arbennig ar y Metro, Llywodraeth Cymru, a James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad ar drefn y digwyddiadau a arweiniodd at y sefyllfa bresennol o ran y Rhwydwaith Drafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r ffaith bod Cymru wedi'i heithrio o'r coridorau rhwydwaith craidd arfaethedig ac ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r Comisiwn i gael mynediad at gyllid.

3.3 Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor o fewn chwe mis am y cynnydd a wnaed gan y Grŵp Annibynnol, sydd wedi cael y dasg o ddatblygu'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad a gyhoeddwyd gan Gonsortiwm y Metro, sef "Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: astudiaeth effaith".

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol canlynol:

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**EBC(4)-42-13(p3)** – Llythyr y Gweinidog at holl Aelodau'r Cynulliad am y fframwaith TEN-T

## 5 Cynllunio'r Gwaith Craffu Ariannol (preifat) (13.00-14.00)

SESIWN BREIFAT